# Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd Addysg Uwch Cymru

**Awst 2025**

Stuart Norton, Pennaeth Rhagoriaeth Addysgol, AU Ymlaen

# Cynnwys


Cynnwys 2
1 Rhagair 4
2 Crynodeb Gweithredol 6
3 Cyflwyniad 6
4 Grwpiau Gorchwyl a Gorffen 8
5 Symposia 9
6 Alinio â thueddiadau byd-eang ac ysgogiadau'r sector 10
7 Effaith a myfyrdodau 11
8 Argymhellion a chyfeiriad i'r dyfodol 11
9 Casgliad 13

# 1 Rhagair

Tarddodd Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd Cymru o gydnabyddiaeth ar y cyd fod yn rhaid wrth gydweithrediad ar draws y sector er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon a chynaliadwy yng nghyflogadwyedd graddedigion. Mae'r Gymuned, a gomisiynir gan Medr ac a gefnogir gan AU Ymlaen, wedi tyfu i fod yn ofod lle gall ymarferwyr, academyddion a chydweithwyr gwasanaeth proffesiynol gydweithio tuag at ddiben cyffredin: meithrin rhagoriaeth mewn darpariaeth cyflogadwyedd drwy arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, deialog strategol, ac uchelgais ar y cyd.

Mae Cymru'n cynnig amgylchedd addysgol nodedig sydd wedi'i lunio gan system addysg drydyddol unedig, fframwaith polisi datganoledig sy'n blaenoriaethu ecwiti a chenhadaeth ddinesig, ac ymrwymiad strategol i gydweithio a fynegir drwy fentrau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Gymuned Ymarfer â'i gwreiddiau yn y cyd-destun hwn, gan alluogi sefydliadau i ddysgu'r naill oddi wrth y llall, i alinio o amgylch blaenoriaethau cyffredin, a chodi llais y sector Cymreig mewn sgyrsiau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach ynghylch cyflogadwyedd. Mae ein gwaith yn cydnabod bod cyflogadwyedd yn broses ddeinamig ac esblygol sy'n cael ei llunio gan addysgeg arloesol, amodau'r farchnad lafur, a thueddiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cymuned wedi sicrhau bod y sector Cymreig nid yn unig yn ymatebol i'r datblygiadau hyn ond hefyd yn rhagweithiol wrth lunio dyfodol llwyddiant graddedigion. Mae ein symposia wedi codi cwestiynau cymhleth ynghylch ein cysyniadau o gyflogadwyedd, a'r modd y caiff hynny ei gyfleu, tra bo'n gweithgorau cydweithredol wedi cynhyrchu allbynnau ymarferol yn gysylltiedig â iaith cyflogadwyedd a chynaliadwyedd o fewn cymorth gyrfa. Drwy ddod â chydweithwyr academaidd a phroffesiynol o bob cwr o'r sector Cymreig ynghyd, mae'r Gymuned wedi helpu i feithrin perthnasoedd gwaith cryfach, dyfnhau dealltwriaeth gyffredin, a datblygu arbenigedd ar y cyd. Mae'r cysylltiadau hyn eisoes yn cefnogi ymagweddau mwy cydgysylltiedig at gyflogadwyedd, a byddant yn parhau i fod o fudd i'r sector y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol gwaith eleni.

Wrth inni edrych tua'r dyfodol, bydd darpariaeth cyflogadwyedd yn parhau i esblygu mewn ymateb i ddisgwyliadau newidiol yn y gweithle, technolegau sy'n dod i'r amlwg, a blaenoriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae'r sector yn ymdrin yn gynyddol â chwestiynau ynghylch sut orau i baratoi dysgwyr am fyd gwaith sy'n ddeinamig ac yn amrywiol. Ceir angen cynyddol i ystyried sut mae ein hymagweddau'n cefnogi cyfranogiad cynhwysol, yn ymateb i datblygiadau ar draws y sector, ac yn rhoi'r gwerthoedd y mae ar fyfyrwyr eu hangen, a'r gallu iddynt ymaddasu, er mwyn ffynnu mewn ystod o gyd-destunau proffesiynol Er mwyn cyflawni'r gwaith o'n blaen, bydd angen dychymyg, chwilfrydedd ac ymrwymiad parhaus i ddysgu'r naill oddi wrth y llall. Bydd angen inni hefyd wrando'n ofalus - ar fyfyrwyr, cyflogwyr, a'r naill a'r llall - wrth inni siapio cefnogaeth sy'n berthnasol, yn gydnerth, ac yn cynnwys yr holl amrywiaeth o ddysgwyr ledled Cymru.

Hoffem fynegi diolch i holl aelodau'r Gymuned, ac i'n partneriaid yn Medr ac AU Ymlaen am eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad parhaus. Braint yw cael arwain y gwaith hwn, ac edrychwn ymlaen at yr hyn sydd o'n blaen.

**Fay Short,** Is-Ganghellor Cysylltiol (Cyflogadwyedd), Prifysgol Bangor
Cadeirydd (Academaidd), Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd
**Bev Herring,** Pennaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Prifysgol Aberystwyth
Cadeirydd (Gwasanaeth Gyrfaoedd), Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd

# 2 Crynodeb Gweithredol

Mewn partneriaeth ag AU Ymlaen, mae Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd Addysg Uwch Cymru, a gomisiynwyd gan Medr, wedi cynnal rhaglen sylweddol o waith ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Drwy symposia thematig, grwpiau gorchwyl a gorffen cydweithredol, a defnyddio gwasanaeth Connect AU Ymlaen fel platfform ymgysylltu ar-lein, mae'r Gymuned Ymarfer wedi mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth yn gysylltiedig â chyflogadwyedd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau rhwydweithiau traws-sefydliadol, wedi cynhyrchu offer ac argymhellion ar draws y sector, ac wedi dangos effeithiolrwydd dull strategol cenedlaethol o ymdrin â chyflogadwyedd. Mae'n sefydlu Cymru fel sector rhagweithiol a chydlynol, sy'n barod i fynd i'r afael â phwysau ariannol, newidiadau i'r farchnad lafur, a'r galw cynyddol am raddedigion sy'n barod am waith ac yn wydn, a chanddynt sylfaen foesegol.

Mae'r adroddiad canlynol yn amlinellu gweithgareddau ac effaith y Gymuned Ymarfer ar draws y flwyddyn academaidd, gan leoli ei gwaith o fewn tueddiadau byd-eang, strategaeth genedlaethol a gofynion esblygol y farchnad lafur. Mae'n dangos sut mae darparwyr addysg uwch Cymru yn ymateb ar y cyd i'r heriau hyn gyda phwrpas, drwy gydweithio ac arloesi.

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaeth y Gymuned Ymarfer:

+ Ymgysylltu â 94 o ymarferwyr unigryw ar dros dri symposiwm (57, 50 a 46 ym mhob un yn eu tro), gan sicrhau cynrychiolaeth o bob darparydd AU yng Nghymru.
+ Cynhyrchu allbynnau y gellir gweithredu arnynt, gan gynnwys argymhellion drafft ynghylch iaith cyflogadwyedd (pontio'r bwlch rhwng rhinweddau graddedigion ac anghenion cyflogwyr), ac arferion sy'n gyson â'r sector er mwyn ymwreiddio cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.
+ Manteisio ar wybodaeth genedlaethol, fel adroddiad *Beth Mae Graddedigion yn ei Wneud? - Cymru* i ddefnyddio mewnwelediadau o ddata yn sail ar gyfer gweithgarwch y sector.
+ Cynnal canolfan ddigidol ffyniannus ar wasanaeth Connect AU Ymlaen, gyda thros 100 o aelodau ar draws y sector Cymreig yn gallu cael mynediad at adnoddau, astudiaethau achos, a recordiadau o'r symposia ar-lein.
+ Sefydlu AU Cymru fel sector cydweithredol ac arloesol, gan alinio darpariaeth cyflogadwyedd â thueddiadau byd-eang (Deallusrwydd Artiffisial, sgiliau gwyrdd, cyflogi yn seiliedig ar sgiliau) a blaenoriaethau cenedlaethol (*Cynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru* a *Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau*).

# 3 Cyflwyniad

Mae Cymuned Ymarfer Cyflogadwyedd Addysg Uwch Cymru yn fenter strategol wedi'i chynllunio i rymuso darparwyr addysg uwch ledled Cymru i rannu arferion gorau, hyrwyddo canlyniadau cyflogadwyedd, a siapio darpariaeth sy'n barod i'r dyfodol. Wedi'i hwyluso gan AU Ymlaen a'i chomisiynu gan Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru), mae'r Gymuned Ymarfer yn meithrin deialog ac atebion wedi'u cyd-greu ar draws y sector. Y nod yw sicrhau bod staff yn y sefyllfa orau i gefnogi graddedigion drwy roi sgiliau iddynt ar agweddau angenrheidiol a rhyng-gysylltiedig 'cyflogadwyedd' er mwyn cynyddu taflwybrau llwyddiannus ar ôl graddio, mewn marchnad lafur sy'n esblygu'n gyflym.

Mae'r Gymuned Ymarfer yn cynorthwyo darparwyr i ymwreiddio cyflogadwyedd, ac yn defnyddiol ar lefel cwricwlwm, dylunio rhaglenni, trydydd gofod a pholisi. Yn 2024/25, canolbwyntiodd y rhaglen ar dri maes â blaenoriaeth:

### 1 Paratoi Graddedigion Cymru am y Dyfodol

Gyda newidiadau cyflym mewn technoleg a'r economi, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod graddedigion Cymru yn cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y tymor hir. Roedd y thema hon yn canolbwyntio ar strategaethau i baratoi graddedigion o brifysgolion Cymru am y dyfodol, gan archwilio sut y gall sefydliadau AU ragweld newidiadau mewn diwydiant a sicrhau bod myfyrwyr yn barod am rolau sy'n dod i'r amlwg. Trafododd arweinwyr fentrau polisi, cydweithio rhanbarthol, ac arloesi mewn addysgu sy'n cyd-fynd ag anghenion economaidd unigryw Cymru, gan gadw mantais gystadleuol mewn marchnad fyd-eang. Rhoddodd Charlie Ball o Jisc y prif anerchiad a rhannu gwybodaeth allweddol am y farchnad lafur yng Nghymru, cyn cyhoeddi hynny'n ehangach i'r sector: https://luminate.prospects.ac.uk/what-do-graduates-do-wales

### 2 Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

Wrth i flaenoriaethau byd-eang symud tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol, rhaid i addysg uwch arfogi graddedigion â'r sgiliau i ffynnu mewn marchnad swyddi sy'n cael ei gyrru gan bwrpas. Archwiliodd y symposiwm hwn rôl prifysgolion o ran siapio llwybrau gyrfa i fyfyrwyr sy'n gynaliadwy ac yn dangos ymwybyddiaeth o agweddau moesegol. Ymunodd y siaradwr gwadd Dr Kieran Higgins (Prifysgol Ulster) a Dr Alison Calvert (Prifysgol y Frenhines, Belfast) â chydweithwyr i archwilio arferion gorau wrth integreiddio cynaliadwyedd i gwricwla, meithrin dulliau cyfrifol o ddatblygu gyrfa, a phartneru â diwydiannau sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn. Rhannwyd eu pecyn cymorth, sydd ar gael i aelodau AU Ymlaen, â chydweithwyr cyn ei ledaenu'n ehangach: https://www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/education-sustainable-development-curriculum-design-toolkit

### 3 Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth â Gyrfaoedd ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr, Staff a Chyflogwyr

Er mwyn datgloi potensial llawn cyflogadwyedd, mae angen partneriaethau cryf rhwng prifysgolion, myfyrwyr a chyflogwyr. Roedd y symposiwm hwn yn archwilio dulliau arloesol o gysylltu'r ystafell ddosbarth â'r gweithle, gan wella ymgysylltiad myfyrwyr a chyflogwyr â'r broses datblygu gyrfa. Cyflwynodd y grwpiau Gorchwyl a Gorffen hefyd eu canfyddiadau o'r ymchwil wedi'i hariannu yr oedd y Gymuned Ymarfer wedi gallu ei sicrhau yn ystod y flwyddyn.

# 4 Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Ffurfiwyd dau grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio dwy thema â blaenoriaeth yn fanwl. Roedd pob grŵp yn gweithredu ar y cyd ac o bell drwy blatfform Connect AU Ymlaen, gydag adroddiadau strwythuredig ac allbynnau pendant wedi'u cyflawni erbyn mis Mehefin 2025.

## Grŵp Iaith Cyflogadwyedd

Archwiliodd y grŵp hwn a yw'r termau a ddefnyddir gan brifysgolion i ddisgrifio sgiliau graddedigion yn cyd-fynd â'r iaith a ddefnyddir gan gyflogwyr. Er enghraifft, a yw'r ddealltwriaeth o rinweddau fel "meddwl beirniadol" neu "arweinyddiaeth" yr un peth ar draws sectorau?

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod bwlch rhwng fframweithiau sefydliadol a deongliadau cyflogwyr, a all amharu ar allu myfyrwyr i gyfleu eu cryfderau'n effeithiol. Mae hyn yn codi goblygiadau pwysig o ran fframweithiau rhinweddau, strategaethau asesu a chymorth gyrfaoedd graddedigion. Roedd yr adroddiad llawn yn cynnwys amryw o argymhellion. Dyma grynodeb ohonynt:

+ Cefnogi myfyrwyr i fapio rhwng yr iaith sydd ymhlyg mewn swyddi a fframweithiau Rhinweddau Graddedigion.
+ Cynyddu profiadau sy'n wynebu'r diwydiant (lleoliadau, prosiectau dan arweiniad cyflogwyr, mentora) i roi sgiliau mewn cyd-destun.
+ Annog adolygiad gan y diwydiant o'r iaith a ddefnyddir mewn disgrifiadau swydd er mwyn i recriwtio fod yn fwy cynhwysol.
+ Sicrhau bod Rhinweddau Graddedigion yn benodol i'r pwnc ac wedi'u cyfleu'n glir wrth y myfyrwyr.

Darperir yr adroddiad llawn fel atodiad i'r adroddiad cryno hwn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Ch3 2025 drwy ymgyrch ar y cyd rhwng Medr ac AU Ymlaen.

## Grŵp Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

Mewn ymateb i ofynion cynyddol yn gysylltiedig â chynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol ar raddfa fyd-eang a chenedlaethol, archwiliodd y grŵp hwn sut y gall prifysgolion ymwreiddio cynaliadwyedd a moeseg yn y cwricwla ac yn natblygiad myfyrwyr.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno 49 o astudiaethau achos sy'n dangos sut mae sefydliadau trydyddol Cymru yn ymgorffori cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy drwy arloesi o fewn y cwricwlwm, gweithgareddau allgwricwlaidd, ymgysylltu â chyflogwyr, a thrwy sicrhau cysondeb â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r mentrau'n datblygu sgiliau graddedigion fel cydweithio, datrys problemau a meddwl yn feirniadol, yn gwella ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a moeseg, ac yn cefnogi cyflogadwyedd drwy gymwysiadau a phartneriaethau yn y byd go iawn. Mae'r prif fanteision yn cynnwys gwella sgiliau a gwybodaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid, enw da'r sefydliad, a

chefnogaeth i fyfyrwyr a staff, er bod heriau'n bodoli o hyd yn gysylltiedig â chyfyngiadau ariannol, y llwyth gwaith ac amser. Dyma'r prif argymhellion:

+ creu pecyn cymorth ymarferol i rannu arferion gorau
+ defnyddio’r Gymuned Ymarfer i feithrin cydweithio a chyfathrebu ar draws sectorau
+ cynnal ymchwil pellach i fapio a chryfhau gwaith i integreiddio moeseg a chynaliadwyedd o fewn addysg bellach ac uwch ledled Cymru.

Bydd y pecyn cymorth ymarferol yn cael ei ddatblygu dros haf 2025 a bydd yr adroddiad a'r pecyn cymorth yn cael eu cyhoeddi mewn ymgyrch ar y cyd gan Medr ac AU Ymlaen yn nhrydydd chwarter 2025.

# 5 Symposia

Cynhaliodd y Gymuned Ymarfer dri symposiwm drwy gydol y flwyddyn academaidd, pob un yn cynnig fforwm i gyfnewid gwybodaeth, cyfraniadau gan brif areithwyr a chyfle i sefydliadau rannu â'i gilydd. Cynlluniwyd y gyfres i ddarparu llwyfan strwythuredig er mwyn myfyrio a blaengynllunio ar y cyd yn ystod blwyddyn o newid sylweddol ym myd addysg uwch yng Nghymru. Yng nghyd-destun pwysau ariannol cynyddol, newid i ddemograffeg myfyrwyr a chraffu cynyddol ar ddeilliannau graddedigion, roedd y symposia yn fodd i sefydliadau archwilio sut y gall addysg uwch barhau i fod yn ystwyth a pherthnasol. Gan ddod ag arbenigedd ynghyd o bob cwr o Gymru a'r DU yn ehangach, cefnogodd y digwyddiadau drafodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ar integreiddio cynaliadwyedd, cyflogadwyedd a rhagolygon sgiliau o fewn strategaethau sefydliadau a'r cwricwla. Tanlinellodd y symposia rôl y Gymuned Ymarfer o ran hwyluso deialog strategol, galluogi'r sector i rannu arfer effeithiol, ymdrin â heriau cyffredin a nodi blaenoriaethau ar gyfer cydweithredu sy'n cryfhau cyfraniad addysg drydyddol yng Nghymru at lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

## Symposiwm 1 (15 Tachwedd 2024, Ar-lein): Paratoi Graddedigion Cymru am y Dyfodol

Prif anerchiad: Charlie Ball (Jisc)

Gan ddefnyddio cynnwys adroddiad Beth Mae Graddedigion yn ei Wneud – Cymru (Jisc, 2025), trafododd y sesiwn hon gyrchfannau rhanbarthol i raddedigion, natur esblygol swyddi graddedigion, a'r angen i ragweld sgiliau wrth gynllunio'r cwricwlwm. Anogwyd sefydliadau Cymru i ragweld gofynion economaidd y dyfodol drwy ddylunio cyrsiau mewn modd strategol ac ymgysylltu â chyflogwyr.

## Symposiwm 2 (28 Chwefror 2025, Ar-lein): Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

Prif Siaradwyr: Dr Kieran Higgins (Prifysgol Ulster) a Dr Alison Calvert (Prifysgol y Frenhines, Belfast)

Canolbwyntiodd y digwyddiad hwn ar ymwreiddio cynaliadwyedd mewn addysg bellach drwy gwricwlwm ac arfer. Cyflwynodd y prif siaradwyr Becyn Cymorth Dylunio'r Cwricwlwm - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, gyda chyfraniadau academaidd gan sefydliadau, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Abertawe.

Rhannodd y cyflwynwyr eu profiadau o ymwreiddio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yng nghyd-destun disgyblaethau penodol, ac amlygu rôl lleoliadau wedi'u halinio â diwydiant a dysgu yn y byd go iawn, wrth feithrin deilliannau cyfrifol i raddedigion.

### Symposiwm 3 (10 Mehefin 2025, Prifysgol Wrecsam): Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth â Gyrfaoedd

Canolbwyntiai'r symposiwm olaf ar ddyfnhau'r cysylltiadau rhwng rhaglenni academaidd a llwybrau cyflogaeth. Archwiliai'r sesiynau sut i gryfhau partneriaethau â chyflogwyr, creu dysgu dilys wedi'i integreiddio i waith, a chyd-ddylunio cwricwla sy'n adlewyrchu anghenion cyflogwyr ac uchelgeisiau myfyrwyr. Rhannodd y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen perthynol hefyd eu canfyddiadau â'r gymuned (gweler adran 2).

# 6 Alinio â thueddiadau byd-eang ac ysgogiadau'r sector

Mae gwaith y Gymuned Ymarfer yn cyd-fynd yn agos â datblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol allweddol.

**Tueddiadau Byd-eang yng Nghyflogaeth Graddedigion:** Wrth i awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial, a diwydiannau gwyrdd ail-lunio'r farchnad swyddi, mae angen sgiliau addasol a throsglwyddadwy ar raddedigion. Mae ffocws y Gymuned Ymarfer ar iaith cyflogadwyedd a chynaliadwyedd yn adlewyrchu'r newid hwn.

**Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig:** Mae Cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn gyson â Nodau Datblygu Cynaliadwy 4 (Addysg o Ansawdd), 8 (Gwaith Teilwng), ac 13 (Gweithredu ar Newid Hinsawdd) gan ailbwysleisio cenhadaeth gymdeithasol addysg uwch.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru:** Mae'r ffocws ar ddiogelu'r dyfodol, cydweithio rhanbarthol, a chyflogaeth foesegol yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cefnogi nodau strategol Sero Net Cymru a Chynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru -Cymru gryfach, decach a gwyrddach. Mae hefyd yn adlewyrchu Cynllun Strategol cyntaf Medr, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025.

**Gwella Deilliannau Myfyrwyr:** Mae'r gwaith yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion myfyrwyr am yrfaoedd ystyrlon sy'n cael eu hysgogi gan werthoedd, gan hyrwyddo ymgysylltiad, cymhelliant a chyfraddau cadw myfyrwyr drwy gylch oes cyfan y myfyriwr.

# 7 Effaith a myfyrdodau

Mae model y Gymuned Ymarfer wedi bod yn hynod effeithiol o ran adeiladu capasiti'r sector, galluogi cydweithio a grymuso gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau academaidd a gyrfaoedd. Dyma rai uchafbwyntiau:

+ Cydweithio dwysach ar draws sectorau: Mae aelodau wedi rhannu adnoddau, wedi datblygu offer ar y cyd, ac wedi alinio ymdrechion drwy weledigaeth strategol gyffredin.
+ Integreiddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth: Mae ymgysylltu â setiau data cenedlaethol (e.e. Beth Mae Graddedigion yn ei Wneud – Cymru) a fframweithiau sector wedi gwella trylwyredd a pherthnasedd y gwaith.
+ Ymreolaeth greadigol wrth ddarparu: Dangosodd grwpiau gorchwyl a gorffen werth rhyddid academaidd, gan greu allbynnau arloesol a oedd hefyd yn berthnasol i'r cyd-destun.
+ Mwy o amlygrwydd i AU Cymru: Mae'r Gymuned Ymarfer wedi sefydlu prifysgolion Cymru fel cyfranwyr gweithredol at y sgwrs fyd-eang am gyflogadwyedd a chynaliadwyedd.

# 8 Argymhellion a chyfeiriad i'r dyfodol

Mewn ymateb i dirweddau ariannol newidiol, newidiadau i ymrestriadau myfyrwyr rhyngwladol ac ad-drefnu eang ar draws y DU, rhaid i gyflogadwyedd barhau i esblygu yn strategaethau cydweithredol ar draws yr holl sector sy'n gynaliadwy, ac yn canolbwyntio ar y dyfodol. Mae'r gwaith a wnaed yng Nghymru yn rhoi mantais amlwg i'r sector, gyda'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o ddarparwyr: roedd gan y grŵp iaith cyflogadwyedd gynrychiolaeth o 7 darparydd AU, ac roedd y grŵp moeseg a chynaliadwyedd yn arddangos enghreifftiau gan 9 darparydd. Mae AU Ymlaen, fel corff y sector sy'n cefnogi'r gwaith mewn rôl ysgrifenyddol, yn cynnig y raddfa, y mewnwelediad ehangach a'r fframweithiau sydd eu hangen i gefnogi sefydliadau yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Mewn darpariaeth cyflogadwyedd yn y dyfodol, dylid rhoi'r flaenoriaeth i ymwreiddio parodrwydd am waith o fewn cwricwla, drwy leoliadau, prosiectau byw a mentrau dysgu gydol oes, gan gynnwys ystyriaeth microgymwysterau.Cafwyd ymgysylltiad amlwg gan y gwasanaethau gyrfaoedd, ac mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn y trydydd gofod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyflogadwyedd yn ddeilliant dysgu creiddiol ar hyd cylch oes y myfyriwr.

Bydd cydweithio ar raddfa genedlaethol ac ar raddfa'r sector hefyd yn galluogi sefydliadau Cymru i alinio â'r galw byd-eang am sgiliau, i addasu darpariaeth yn gyflym mewn meysydd fel diwydiannau gwyrdd, deallusrwydd artiffisial a seilwaith, ac ymateb i'r ffafriaeth gynyddol ymhlith cyflogwyr i gyflogi ar sail sgiliau. Dylai dulliau sy'n seiliedig ar ddata, wedi'u llywio gan ddeilliannau graddedigion a dadansoddiadau llafur rhanbarthol, lywio'r ddarpariaeth a mesur effaith, gan helpu sefydliadau i barhau i fod yn atebol wrth i eraill graffu ar eu gwerth am arian. Agwedd bwysig ar hyn yw bod strategaethau cyflogadwyedd yn taro cydbwysedd rhwng y gallu i ymateb i'r farchnad lafur a phwrpas ehangach addysg uwch, fel bo modd cyflawni cenadaethau

creiddiol ac, ar yr un pryd, meithrin gwytnwch, meddwl beirniadol a chynhwysiant, fel bod graddedigion Cymru yn ffynnu mewn economïau ansicr tra bo prifysgolion yn parhau i fod yn berthnasol yn rhanbarthol ac yn fyd-eang. Yn seiliedig ar weithgarwch y flwyddyn ac adborth gan gyfranogwyr, cynigir yr argymhellion canlynol:

+ **Cydgasglu a lledaenu canfyddiadau:** Cyhoeddi allbynnau o'r ddau grŵp gorchwyl a gorffen, ar ffurf adroddiadau a phecynnau cymorth hygyrch yn sail ar gyfer polisi ac ymarfer ledled Cymru.
+ **Dwysáu cyfranogiad cyflogwyr:** Cwmpasu'r posibilrwydd i sefydlu mecanwaith cynghori ffurfiol er mwyn cynnwys adborth gan gyflogwyr mewn symposia a gwaith datblygu themâu yn y dyfodol.
+ **Cynnal y model Cymuned Ymarfer:** Adeiladu ar y Gymuned Ymarfer, a grwpiau gorchwyl a gorffen yn y dyfodol lle bo modd, sydd wedi dangos eu bod yn effeithiol wrth ehangu gwaith arloesi ar draws y sector. Mewn gweithgarwch yn y dyfodol, awgrymir y dylid canolbwyntio ar feysydd uchel eu blaenoriaeth fel sgiliau Sero Net, sgiliau Deallusrwydd Artiffisial a digidol, mentrau gan fyfyrwyr a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn neilliannau graddedigion.
+ **Hyrwyddo dulliau rhyngddisgyblaethol:** Annog cydweithio trawsddisgyblaethol ar gyflogadwyedd i ymgorffori themâu ar draws ffiniau academaidd.
+ **Sicrhau cysondeb ag amcanion strategol Medr:** Mapio blaenoriaethau'r Gymuned Ymarfer i'r dyfodol â nodau strategol Medr, fel y cawsant eu cyfleu yn ei Gynllun Strategol cyntaf, gan archwilio'r posibilrwydd i sicrhau cydlyniant a gwerth strategol ar draws y sector trydyddol.
+ **Datblygiad proffesiynol ar gyfer arweinwyr cyflogadwyedd**: Archwilio llwybrau DPP (sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Safonau Proffesiynol a fframweithiau sector perthnasol) ar gyfer staff sy'n arwain mentrau cyflogadwyedd. Gallai hyn gynnwys bathodynnau digidol a/neu ficro-gymwysterau.

# 9 Casgliad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gymuned Ymarfer wedi llwyddo i uno ymarferwyr, arweinwyr a rhanddeiliaid o bob cwr o'r sector er mwyn hyrwyddo cyflogadwyedd a datblygiad sgiliau myfyrwyr yng Nghymru. Gan adeiladu ar bedair blynedd o fentrau blaenorol, mae'r Gymuned Ymarfer wedi gweithredu fel fforwm strategol ac ymarferol er mwyn rhannu gwybodaeth, meithrin cydweithio a llywio cyfeiriad darpariaeth cyflogadwyedd i'r dyfodol.

Dyma rai o'r prif gyflawniadau:

+ **Cydweithio ar draws y sector:** Daethpwyd â gweithwyr proffesiynol o bob darparydd addysg uwch yng Nghymru ynghyd i gyfnewid arferion da, trafod heriau cyffredin, a chryfhau ymagweddau sefydliadol at gyflogadwyedd.
+ **Aliniad strategol:** Cefnogwyd ymgysylltiad polisi drwy ymateb i ymgyngoriadau sy'n dod i'r amlwg a chodi llais ar y cyd i lywio polisi cenedlaethol a blaenoriaethau cyrff ariannu o ran sgiliau a menter.
+ **Allbynnau ymarferol:** Wedi cynnal tri chyfarfod ar draws y sector, gan gynnwys un digwyddiad yn y cnawd, yn cynnwys siaradwyr arbenigol, gweithdai thematig a chyfleoedd rhwydweithio strwythuredig.
+ **Rhannu gwybodaeth:** Wedi datblygu a chynnal canolfan ddigidol drwy wasanaeth Connect AU Ymlaen, astudiaethau achos tai, papurau polisi, crynodebau ymchwil ac offer ymarferol i wella strategaethau cyflogadwyedd sefydliadol.
+ **Grwpiau Gorchwyl a Gorffen:** Wedi cychwyn ffrydiau gwaith i ymdrin â materion â blaenoriaeth, gan greu argymhellion ac allbynnau cyffredin.
+ **Arbenigedd ar y cyd:** Wedi galluogi aelodau i adeiladu rhwydweithiau a gallu proffesiynol, gan sicrhau bod staff ar draws y sector yn parhau i fod â'r wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr.

Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau bod addysg uwch Cymru yn parhau i fod yn rhagweithiol wrth ymateb i dirlun addysg uwch sy'n newid yn gyflym, ac a nodweddir gan bwysau ariannol, newidiadau i ddemograffeg myfyrwyr, a'r angen am ddeilliannau i raddedigion sy'n gystadleuol ar raddfa fyd-eang.

Mae'r Gymuned Ymarfer wedi cyflawni blwyddyn o waith dylanwadol, wedi'i hysgogi gan gydweithio, arloesi ac ymrwymiad i ecwiti a chynaliadwyedd. Mae ei haliniad ag ysgogiadau'r sector, ei ffocws ar ddyfodol graddedigion a'i phwyslais ar gydweithio rhwng y byd academaidd a'r byd gyrfaoedd yn ei gwneud yn fodel ar gyfer gwelliant systemig.

Mae AU Ymlaen yn falch o gefnogi'r gymuned a adeiladwyd drwy'r gwaith hwn ac yn edrych ymlaen at barhau i gefnogi Medr i lunio ecosystem sgiliau bywiog, gwydn a moesegol i Gymru.

# Contact us

## All enquiries

Email: communications@advance-he.ac.uk

**Advance HE helps HE institutions be the best they can be, by unlocking the potential of their people.**

We are a member-led, sector-owned charity that works with institutions and higher education across the world to improve higher education for staff, students and society. We are experts in higher education with a particular focus on enhancing teaching and learning, effective governance, leadership development and tackling inequalities through our equality, diversity and inclusion (EDI) work.

Our strategic goals to enhance confidence and trust in HE, address inequalities, promote inclusion and advance education to meet the evolving needs of students and society, support the work of our members and the HE sector.

We deliver our support through professional development programmes and events, Fellowships, awards, student surveys and research, providing strategic change and consultancy services and through membership (including accreditation of teaching and learning, equality charters, knowledge and resources).

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Company limited by guarantee registered in Ireland no. 703150. Registered as a charity in England and Wales no. 1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Registered Office: Advance HE, Innovation Way, York Science Park, Heslington, York, YO10 5BR, United Kingdom.

---

© 2024 Advance HE. All rights reserved.

The views expressed in this publication are those of the author and not necessarily those of Advance HE. No part of this publication may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the written permission of the copyright owner. Such permission will normally be granted for non-commercial, educational purposes provided that due acknowledgement is given. The Advance HE logo should not be used without our permission.

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE: communications@advance-he.ac.uk

**advance-he.ac.uk**

@AdvanceHE